WG35.S.94

# MARWNAD

AM Y DIWEDDAR

# BARCH. DAVID JONES,

## CAERDYDD,

YR HWN A FU FARW TACHWEDD YR 8fed, 1854,

YN 46 MLWYDD OED.

GAN WILLIAM JAMES, LANCARVAN.

1 Mil, wyth gant, pump deg, pedair,
Yw'r flwyddyn chwerw hon,
Ce's fy nharo a galar,
A blinder prudd i'm bron,
Wrth glywed beth wnaeth angeu,
Fath ergyd rodd yn awr,
I un o'r gwir ffyddloniaid
Yn myddin Iesu mawr!

2 Yr wythfed dydd o Dachwedd,
Mi gofiaf hyn o dro,
Daeth newydd trwm alaethus
I swnio trwy ein bro;
Sef, colli Jones anwylaf,
Galarus dro oedd hwn,
Mae llawer bron gan brudd-der,
Oes, heddyw, dan ei phwn.

3 Waith colli cyfaill anwyl,
A bugail hoff, 'run wedd,
A'i droi dan ddyrnod angeu
I orwedd yn y bedd;
O, pwy all ddirnad gofid
Ei eglwys yma'n awr,
Wrth wel'd eu bugail ffyddlon
Yn myn'd i'r ddaear lawr!

4 Mae cannoedd, oes, mae miloedd,
Yn ardal tref Caerdydd,
Waith colli Jones anwylaf,
Yn wylo heddyw'n brudd!
Waith colli un mor serchog,
A'r fath gariadus wedd,
Mae galar yn mhob mynwes
Ei fod yn myn'd i'r bedd.

5 Yn mhlith 'r holl Weinidogion
Yn awr sydd drwy ein Sir,
Am Jones o'r Tabernacl
Bydd galar amser hir,
Wrth gofio'i eiriau melys,
Yn dweyd am Geidwad byw,
A'r ffordd i bechaduriaid
I dd'od drwy Grist at Dduw.

6 Aelodau a gwrandawwyr
Ei weinidogaeth wiw,
Sydd heddyw yn galaru
Ei fyn'd o dir y byw;
Ond er i ni alaru,
Byth mwyach ni ddaw'n ol,
Am hyny, frodyr anwyl,
Par'town fyn'd ar ei ol.

7 O, angeu, angeu creulawn,
Paham y gwnest fel hyn,
Sef taro un mor ffyddlawn,
A'i roi mewn gwaelod glyn?
Lle nid oes gobaith bellach
Ei glywed yma mwy,
Yn dweyd am ddrwg y gelyn,
Na rhinwedd marwol glwy'!

8 Chwe' mlynedd a deugain gafodd
O amser yma i fyw,
Rhan fawr o hyny dreuliodd
Yn ngwinllan hardd ei Dduw;
Ei yrfa'n deg a redodd
Mewn heddwch pur i ben,
Mae heddyw'n moli'r Iesu
A'i prynodd ar y pren.

9 Efe fu yn bugeilio
Dros ugain mlynedd lawn,
Eglwys y Tabernacl,
Yn hyn bu'n ffyddlon iawn;
Ymdrechai gael tangnefedd
Yn wastad yn eu plith,
Yn awr mae mewn tangnefedd,
Ni dderfydd hwnw byth.

10 Yn ffyddlon iawn fe dreuliodd
Ran fawr o dyddiau 'i oes,
I ddweyd am ddrwg y gelyn,
A rhinwedd angeu'r groes;

X2053108 25

Dangosai fawr ddrwg Satan
I bawb o ddynolryw,
A'r ffordd a drefnodd Iesu
Drachefn 'in gael byw.

11 Pregethai yr athrawiaeth
Sy'n gyson wrth y Gair,
Gan gofio geiriau'r Ceidwad
Fu gynt ar fynwes Mair ;
Ei grefydd Ef oedd nodwedd
Ein hanwyl Jones bob pryd ;
Ei grefydd Ef oedd sylwedd
Ei holl bregethau i gyd.

12 Rhai cannoedd fe arweiniodd,
Do, i'r dyfrllyd fedd,
Ar broffes o'u crediniaeth
Mai Crist yw awdwr hedd ;
Un amser ni fedyddiodd
Neb heb y broffes hon,
Sef proffes o'u crediniaeth
Yn y Gwaredwr llon.

13 Mae llawer yn galaru,
Oes, heddyw, ar ei ol,
Er hyny 'rwyf yn credu
Ei fod mewn cynhes gol ;
'Nghol Iesu Grist ei Brynwr,
Mewn lle diogel iawn,
Ac ar ei fwrdd caiff wledda
I dragwyddoldeb llawn.

14 Ei serchog, fwyn, gymhares
A wylai ddagrau'n lli',
Wrth wel'd ei phriod anwyl
Yn myn'd i'r dyffryn du ;
Ei hoff blant mwyngu hefyd
Alarent yr un wedd,
Wrth wel'd eu tad tirionaf
Yn myn'd dan gloiau'r bedd.

15 'Rwyf finau yn galaru
Waith colli brawd mor gu,
Fy nhad yn yr efengyl,
Hoff iawn oedd Jones gan I ;
Ond, ust! mi welaf foreu
Y daw i'r lan o'r bedd,
Caiff wel'd yr hawddgar Iesu,
A byth fod ar ei wedd.

16 Hyn fydd ei destun canu
Tra paro'r nefoedd wych,
Cael gweled person Iesu,
Heb ddammeg mwy, na drych;
A'i weled yn teyrnasu
Ar bobpeth yn y nef;
Byth, byth ni dderfydd canu
Yn beraidd iddo Ef.

17 Can iddo Ef am brynu,
Am olchi yn y gwa'd,
Can iddo Ef am drefnu
Ffordd rydd fyn'd at y Tad;
Can iddo Ef am berffaith
Lan iechydwriaeth lawn;
Can iddo Ef, heb dewi,
Byth, foreu na phrydnawn.

18 Yn awr, mae wedi dianc
O swn gofidiau'r llawr;
Mae wedi dechreu canu
Clod maith i'r Iesu mawr;
Am hyny, na alarwn
Fel rhai heb obaith cryf,
Wnaeth anwyl Jones ond blaenu
Fyn'd adref o Gaerdyf.

19 Wel, bellach, frodyr anwyl,
Chwiorydd yn mhob man,
Ymdrechwn ddilyn Iesu,
Er bod yn eithaf gwan;
Ond ini ddysgwyl wrtho,
A gofyn hyn drwy ffydd,
Mae'r Iesu wedi addo
Rhoi nerth yn ol y dydd.

20 Wel, bellach gwnawn ymbwyso
Byth ar ei allu mawr,
A'i 'wyllus ryfedd hefyd
I achub llwch y llawr;
O, rhown ein gofal iddo,
Fe'n dwg i'r nefoedd wen,
I blith 'r holl waredigion,
I'w foli mwy. Amen.

**DIWEDD.**

---

JOHN GRIFFITHS, ARGRAFFYDD, PONTFAEN.